



Mike Hedges AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a  
Materion Gwledig

17 Hydref 2017

Annwyl Mike

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig mewn perthynas ag argymhelliad 21 o'ch adroddiad ar 'Ddyfodol Rheoli Tir yng Nghymru' dyddiedig 24 Mawrth 2017.

Roedd argymhelliad 21 yn nodi:-

Y dylai Llywodraeth Cymru anelu at gynyddu'r cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus ac adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar lefelau caffael presennol a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru (GCC) wedi bod yn gweithio gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru i roi nifer o gytundebau caffael ar waith ar gyfer darparu cynnyrch bwyd ffres a chynnyrch bwyd wedi'i becynnu.

Roedd y cytundeb cynnyrch bwyd ffres yn targedu'r cynhyrchion canlynol:

- Cigoedd ffres ac wedi'u rhewi.
- Ffrwythau, llysiau a salad ffres.
- Llaeth ffres, cynhyrchion llaeth ac wyau ffres.
- Bara, rholiau, cacennau a nwyddau bore
- Bwydydd oer parod i'w bwyta.

Roedd y cytundeb cynnyrch bwyd wedi'i becynnu yn targedu'r cynhyrchion canlynol:

- Cynhyrchion amgylchol ac wedi'u rhewi.
- Nwyddau groser amgylchol.
- Cynhyrchion wedi'i rhewi.
- Diodydd meddal, dŵr potel, melysion a chreision.

Cynlluniwyd y model caffael i ddiwallu anghenion amrywiol y sector cyhoeddus yng Nghymru a hefyd ei osod yn gylchfaol er mwyn annog cyflenwyr yng Nghymru i gymryd rhan.

At hynny rhoddwyd pwyslais penodol ar ddatblygu ffynonellau cyflenwi yng Nghymru gyda dangosyddion perfformiad allweddol priodol wedi'u cynnwys i sicrhau y gellir monitro perfformiad cyflenwyr.

Lle roedd dosbarthwyr wedi ennill contractau pwysleisiwyd y byddai'r GCC yn gweithio gyda nhw i roi llwybr i'r farchnad ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a diod lleol a hyrwyddo cynnyrch o Gymru.

Mae'r ddau waith caffael wedi cael eu cynllunio i gyflawni allbynnau sy'n cwmpasu holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a chwmpasu rheoliadau diogelwch bwyd cadarn iawn a gyflwynir yn genedlaethol drwy asiantaeth achredu diogelwch bwyd allanol.

### **Statws cyfredol – Cynnyrch Bwyd Ffres**

Gosodwyd y cytundeb cynnyrch bwyd ffres ym mis Medi 2017. Mae gwaith yn mynd rhagddo i addasu'r cytundeb gyda nifer o gyrff o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae 80% o'r cyflenwyr a benodwyd i'r cytundeb yn sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Gwerthuswyd pob cynigiwr yn erbyn nifer o feini prawf allweddol gan gynnwys eu gallu i gael gafael ar gynnyrch Cymreig lleol a'u rhoi ar y farchnad.

Ymhlith nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd i fonitro perfformiad cyflenwyr bydd y GCC yn mesur ac yn gweithio gyda chyflenwyr i ddatblygu eu perfformiad mewn perthynas â'r canlynol

- Tarddiad cynhyrchion
- Cynnyrch tymhorol lleol

### **Statws cyfredol – Cynnyrch Bwyd wedi'i Becynnu**

Mae gwaith caffael cytundeb cynnyrch wedi'i becynnu yn mynd rhagddo. Mae'r cyflwyniadau yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd a chaiff y cytundeb ei ddyfarnu ym mis Tachwedd 2017.

## **Camau Nesaf**

Gwahoddir y pwyllgor i ystyried derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad bob chwe mis.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.

### **Lesley Griffiths AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs